| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor |
| **Dyddiad y Cyfarfod** | 28 Ionawr 2025 |
| **Aelod/Swyddog Arweiniol** | Cyng Jason McLellan, Arweinydd Y Cyngor |
| **Awdur yr Adroddiad** | Gary Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol: Llywodraethu a Busnes |
| **Teitl** | Trefniadau Craffu ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad yn ymwneud â'r trefniadau Craffu arfaethedig ar gyfer Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae Cydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru (CJC) wedi ei sefydlu fel corff corfforaethol ar wahân i ymgymryd â swyddogaethau statudol ar draws Gogledd Cymru gyfan. Mae angen gwneud trefniadau i graffu ar ei waith. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cylch gorchwyl drafft ar gyfer Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu arfaethedig.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu Cyd-bwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru gyda'r Cylch Gorchwyl a nodir yn Atodiad 1.

3.2. Cytuno y bydd pwerau Pwyllgorau Craffu lleol y darperir ar eu cyfer o dan Reoliadau Cydbwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 yn cael eu cadw.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

3.3. Cytuno ar gydbwysedd gwleidyddol enwebeion Cyngor Sir Ddinbych i’r cydbwyllgor trosolwg a chraffu (JOSC) fydd yn adlewyrchu aelodaeth Cyngor Sir Ddinbych yn hytrach nag aelodaeth holl gynghorau Gogledd Cymru gyda’i gilydd.

3.4. Cytuno y bydd yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei darparu gan y CJC yn unol â'r Cylch Gorchwyl.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Sefydlwyd Cydbwyllgor Corfforaethol Gogledd Cymru (y CJC) ar 1 Ebrill 2021 ac wedi hynny enillodd ei swyddogaethau ym mis Mehefin 2022. Ar hyn o bryd, y swyddogaethau hyn yw:

• paratoi, monitro, adolygu a diwygio Cynllun Datblygu Strategol rhanbarthol;

• datblygu Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol gyda pholisïau ar gyfer trafnidiaeth ranbarthol;

• â'r pŵer i wneud unrhyw beth sy'n debygol o hybu lles economaidd

4.2. Mae’r CJC yn gorff awdurdod lleol ar wahân gyda’i swyddogaethau a’i aelodaeth ei hun yn dod yn bennaf o 6 Chyngor Gogledd Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae’n ofynnol yn statudol i fabwysiadu’r rhan fwyaf o drefniadau llywodraethu generig Prif Awdurdod gan gynnwys Is-bwyllgor Cyfansoddiad, Llywodraethu ac Archwilio, Is-bwyllgor Safonau a gofynion cyfreithiol eraill gan gynnwys Adolygu Perfformiad, Polisïau Cydraddoldeb a Bioamrywiaeth a chydymffurfio â Safonau’r Gymraeg.

4.3. Mae Atodiad 1 wedi'i baratoi gan gydweithwyr yng Ngwynedd i'w ymgorffori neu i gyd-fynd ag adroddiad i'w osod gerbron Cyngor Llawn bob awdurdod cyfansoddol. Mae Atodiad 1 yn nodi rhagor o wybodaeth am gefndir y trefniadau arfaethedig ar gyfer Craffu ar y CJC.

4.4. Mae'r angen i graffu ar y CJC wedi'i ymgorffori yn Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforaethol (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2022 (y Rheoliadau) a'r Canllawiau Statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Ceir rhagor o fanylion am baragraffau perthnasol y canllawiau statudol a’r Rheoliadau yn Atodiad 1

4.5. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i CJC gydweithredu â Phwyllgor Craffu “perthnasol” ac ymateb i unrhyw adroddiadau neu argymhellion a baratoir gan y

Pwyllgor Craffu. Gall Pwyllgor Craffu 'perthnasol' fod yn bwyllgor o un o'r awdurdodau cyfansoddol, neu, gall fod yn Cyd-bwyllgor a benodir gan yr awdurdodau hynny.

4.6. Er ei bod yn ofynnol i CJC gael ei Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac Is-bwyllgor Safonau, nid yw'n ofynnol iddo gael ei Bwyllgor "Trosolwg a Chraffu" ei hun. Y cwestiwn yw, beth yw'r ffurf fwyaf priodol i'r Pwyllgor Craffu hwnnw ei gymryd?

4.7. Mae trefniadau craffu ar y cyd wedi'u rhoi ar waith mewn perthynas â'r tri CJC arall yng Nghymru. Er bod rhai o'r trefniadau hyn yn rhagddyddio'r Rheoliadau, mae'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru yn amlwg yn rhagweld trefniadau craffu ar y cyd ar gyfer CJCs.

4.8. Cynigir bod Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei benodi gan y chwe chyngor cyfansoddol yn seiliedig ar y Cylch Gorchwyl sydd ynghlwm yn Atodiad 2. Rhagwelir y bydd y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cynnwys 12 aelod, 2 o bob awdurdod, i'w penodi yn unol â chydbwysedd gwleidyddol pob awdurdod yn hytrach nag ar sail cydbwysedd Gogledd Cymru.

4.9. Mae'n bwysig nodi mai'r bwriad yw i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ddod yn is-bwyllgor o'r CJC. Felly bydd y trefniadau presennol ar gyfer craffu ar y Bwrdd Uchelgais yn dod yn gyfrifoldeb y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu arfaethedig pan fydd y trosglwyddo'n digwydd. Mae'r trefniadau presennol yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru fynychu pwyllgorau craffu ym mhob un o'r chwe chyngor cyfansoddol felly bydd creu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn lleihau nifer y cyfarfodydd y mae'n rhaid iddynt eu mynychu.

4.10. Mae'n bwysig nodi na fydd creu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn atal Pwyllgorau Craffu lleol rhag craffu ar faterion lleol sy'n codi o waith y CJC.

4.11. Cynigir y bydd yr ysgrifenyddiaeth ar gyfer y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei darparu gan y CJC ond bydd angen cysylltu â swyddogion craffu wrth lunio rhaglenni gwaith ac unrhyw gyngor craffu sydd ei angen.

## 5. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Cynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd creu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn galluogi dull rhanbarthol cydgysylltiedig o graffu ar y CJC sy’n gyfrifol am y Cynllun Datblygu Strategol, y Cynllun Trafnidiaeth Ranbarthol, a maes o law Bargen Twf Gogledd Cymru.

5.2. Byddai'r penderfyniad arfaethedig yn cyfrannu at Sir Ddinbych ffyniannus ac, fel elfen allweddol o lywodraethu, byddai'r Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cyfrannu at Gyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio'n dda.

## 6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Cynigir y bydd swyddogaeth ysgrifenyddol y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn cael ei darparu gan y CJC a ariennir gan y chwe chyngor cyfansoddol. Rhagwelir y bydd o leiaf dri chyfarfod y flwyddyn a bydd angen elfen o gydgysylltu rhwng swyddogion craffu lleol a’r CJC.

6.2. Os na chaiff y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu ei greu, yna bydd angen i bob swyddogaeth graffu awdurdod lleol graffu ar y CJC. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer craffu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn golygu bod swyddogion Uchelgais Gogledd Cymru yn mynychu pob un o'r pwyllgorau craffu lleol sy'n golygu rhywfaint o ddyblygu.

6.3. Ni ragwelir y bydd y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn achosi costau ychwanegol o ran cydnabyddiaeth ariannol i aelodau.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nid oes angen asesiad ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd yn flaenorol â Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Craffu ar yr egwyddor o sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu a chytunwyd â'r rhesymeg o'i greu ar yr amod y byddai pwyllgorau Craffu Lleol yn dal i allu craffu ar faterion o bwysigrwydd lleol sy'n codi o waith y CJC. Ymgynghorwyd hefyd â Chadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu ar gynnwys yr adroddiad hwn a chadarnhawyd eu cefnogaeth i'r cynnig.

8.2. It has been agreed that each Council will consider this report as it will require approval by each participating authority.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae hon yn elfen allweddol o lywodraethu'r CJC. Mae'n ymddangos bod y cynnig yn lleihau'r posibilrwydd o ddyblygu gweithgarwch craffu ac felly adnoddau ar draws y rhanbarth. Nid yw'n ymddangos bod angen unrhyw adnoddau ychwanegol i allu craffu'n lleol lle bo hynny'n briodol.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Mae risg pe bai Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yna bydd craffu'r CJC yn dameidiog. Bydd hyn yn golygu craffu'n lleol ar y CJC a fydd, yn ôl pob tebyg, yn peidio â chymryd agwedd ranbarthol ac yn hytrach yn cael ei ganolbwyntio ar sail fwy plwyfol.

10.2. Mae risg y bydd creu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn creu 'pellter' rhwng y cynghorau cyfansoddol a'r CJC. Bydd angen gwneud gwaith i sicrhau bod gwaith y Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn dryloyw ac ar gael i aelodau pob cyngor cyfansoddol.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. a58 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011

11.2. Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar y Cyd) (Cymru) 2013